Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Gogarth
# Nant y Gamar Road
# Craig y Don
# Llandudno
# LL30 1YE

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol y Gogarth

Mae Ysgol y Gogarth yn ysgol arbennig ddydd a phreswyl wedi'i lleoli yn nhref arfordirol Llandudno. Dyma'r unig ysgol arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Conwy. Ar hyn o bryd, mae 223 o ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed ar y gofrestr. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol a difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ardal awdurdod lleol Conwy a daw ychydig bach iawn o awdurdodau lleol cyfagos. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gefndir Saesneg ei iaith. Mae tua 38% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn rheoli cyfleuster preswyl sy'n cynnig lleoliadau tymor byr i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig cartref i nifer o wasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys y tîm gwaith cymdeithasol ar gyfer plant ag anableddau, y tîm allgymorth ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig, y gwasanaeth cymorth synhwyraidd a chanolfan datblygiad plant, ar gyfer Conwy. Ers yr arolygiad diwethaf, mae safle ac adeiladau'r ysgol wedi'u hailddatblygu'n sylweddol fel rhan o raglen ysgolion yr 21ain ganrif Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol y Gogarth yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2009. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae disgyblion yn Ysgol y Gogarth yn ymateb yn gadarnhaol iawn i strategaethau hynod effeithiol yr ysgol i gefnogi datblygiad eu medrau cyfathrebu ac annibyniaeth. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn dros gyfnod o safbwynt eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni anghenion disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r dewis helaeth o brofiadau dysgu yn hybu datblygiad gallu ac aeddfedrwydd disgyblion yn effeithiol iawn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff arbenigol yn cydweithio'n eithriadol o dda i nodi anghenion unigol disgyblion a sicrhau bod gwersi'n adeiladu'n systematig ar eu galluoedd a'u diddordebau. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda rhieni a phartneriaid i sicrhau ei bod yn cynnig cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu medrau sy'n eu paratoi'n effeithiol iawn at fywyd yn y dyfodol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn dangos arweinyddiaeth ragorol. Maent wedi datblygu gweledigaeth strategol gydlynol ar gyfer yr ysgol, sy'n gosod anghenion pwysicaf disgyblion wrth wraidd pob agwedd ar waith yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod pob gwers yn cyfateb i'r arfer orau yn yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos, i'w lledaenu ar wefan Estyn, ar waith yr ysgol yn gysylltiedig â'r ffordd y mae ei strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn galluogi disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm yn llwyddiannus, a sut mae cydweithio llwyddiannus yr ysgol â'r coleg addysg bellach lleol yn sicrhau her a dilyniant cyson i ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn iawn o safbwynt eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn dda i strategaethau cyfathrebu a chymorth ymddygiad hynod effeithiol yr ysgol, sy'n eu galluogi i fanteisio ar ddysgu a datblygu'r medrau annibynnol, cymdeithasol a bywyd y bydd arnynt eu hangen at fywyd yn y dyfodol.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad yr holl ddisgyblion a pherfformiad bechgyn a merched, y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn eithriadol o dda o ran eu hanghenion a'u galluoedd. Defnyddiant amrywiaeth eang o systemau cyfathrebu i gyfleu eu hanghenion yn effeithiol, gan gynnwys geirfa cyfnewid lluniau, arwyddo a gwrthrychau cyfeirio. Mae disgyblion ag anghenion mwy cymhleth yn defnyddio switshis a chymhorthion cyfathrebu sy'n cynhyrchu allbwn llais i wneud dewisiadau a mynegi eu dymuniadau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn ymateb yn hyderus i gwestiynau ac yn gofyn cwestiynau addas i eraill er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'u medrau cymdeithasol yn dda iawn. Maent yn ymwneud yn gwrtais ac yn hyderus ag ymwelwyr â'r ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn gadarnhaol i arweiniad a chyfarwyddiadau. Maent yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ac annog ei gilydd yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu eu medrau annibyniaeth yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu medrau gofal personol pwysig, sy'n cyfrannu'n sylweddol at eu gallu i fod yn rhan o'r gymuned. Mae disgyblion hŷn yn gwirfoddoli i adfer gerddi canolfan gymunedol leol a chymryd rhan mewn prosiectau menter, fel busnes gwerthu coed tân yr ysgol, 'Gog's Logs'. Mae disgyblion yng nghaffi'r ysgol yn dysgu medrau gwerthfawr yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid a pharatoi bwyd.

Mae ychydig ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddysgu medrau byw'n annibynnol yng nghyd-destun cyfleuster preswyl yr ysgol, Llys Gogarth. Mae'r rhain yn cynnwys medrau gofal cartref pwysig, fel dysgu sut i gyweirio gwely a defnyddio peiriant golchi dillad. Mae'r cyfleoedd hyn yn paratoi disgyblion yn arbennig o dda ar gyfer bywyd mwy annibynnol ar ôl iddynt adael yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u creadigrwydd a'u medrau corfforol yn dda iawn. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn creu collages synhwyraidd i archwilio gweadau a chryfhau eu medrau echddygol manwl. Mewn gwersi addysg gorfforol, mae disgyblion hŷn yn datblygu'u medrau cymryd risgiau a chydsymud yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r wal ddringo.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion mwy abl yn darllen yn gywir ac yn hyderus. Defnyddiant strategaethau priodol i rannu geiriau anghyfarwydd yn ddarnau yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymateb yn addas trwy leisio ac ystumio i ddangos eu dealltwriaeth o rifau a dangosant fedrau paru a didoli da. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio geirfa fathemategol yn gysylltiedig â siâp yn gywir, er enghraifft wrth ddefnyddio prismau a phyramidiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u dealltwriaeth o'r Gymraeg yn dda mewn perthynas â'u hanghenion a'u cefndir ieithyddol. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r defnydd ar y Gymraeg mewn gwersi. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud cynnydd da wrth gaffael a defnyddio'r iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn ymateb yn dda i'r defnydd ar raglenni meddalwedd i gryfhau eu dealltwriaeth o achos ac effaith. Mae disgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i rannu'u dysgu ac maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill ystod addas o gymwysterau neu unedau credyd mewn cyrsiau sy'n cyfateb yn dda i'w hanghenion a'u galluoedd. Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys unedau lefel mynediad 1 i lefel mynediad 3, cymwysterau TGAU mewn celfyddyd gain a gwyddoniaeth, a Thystysgrif Medrau Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion sy'n defnyddio canolfan alwedigaethol yr ysgol yn ennill unedau ag achrediad mewn dewis helaeth o gyrsiau defnyddiol yn gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys glanhau ceir, peintio ac addurno, a defnyddio offer pŵer. Dros y tair blynedd diwethaf, mae bron pob un o'r disgyblion wedi mynd ymlaen i addysg bellach a darpariaeth coleg arbenigol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae disgyblion yn Ysgol y Gogarth yn arddangos lefelau uchel tu hwnt o les. Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddatblygu'r medrau a'r strategaethau y mae arnynt eu hangen i ddeall eu teimladau a rheoli eu hymddygiad yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i ddull unigryw'r ysgol o gefnogi ymddygiad cadarnhaol ac ymyriadau'r staff hynod fedrus. O ganlyniad, ni fu unrhyw waharddiadau yn yr ysgol am y tair blynedd diwethaf.

Mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn rhagorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y bydd staff yn eu cefnogi'n dda pan fyddant yn pryderu neu'n cynhyrfu. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Maent yn brydlon i wersi ac yn ymroi'n brydlon i weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyfarwydd â'u harferion a strwythur y diwrnod ysgol, ac yn symud o gwmpas yr ysgol gyda hyder ac ymdeimlad o bwrpas.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ymroi’n dda i’w dysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn awyddus i rannu’u cyflawniadau gydag eraill a defnyddio’u llwyddiant i gefnogi eraill. Pan fydd tasgau’n fwy heriol, mae disgyblion yn dyfalbarhau ac yn dangos gwydnwch er mwyn cyflawni’r canlyniad a ddymunir.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Gwnânt ddewisiadau bwyd a diod buddiol amser cinio a thrwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae cyfran uchel iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn amrywiaeth eang o glybiau cynhwysol amser cinio ac ar ôl ysgol, gan gynnwys dodgeball, pêl-droed, boccia a karate. Maent yn cymryd rhan yn y gweithgareddau corfforol hyn gyda mwynhad a brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’r offer chwarae tu allan yn ystod amser cinio ac amser egwyl yn bwrpasol ac yn eu cefnogi ei gilydd i gymryd rhan cymaint ag y gallant. Mae tua hanner y disgyblion yn cynrychioli’r ysgol mewn digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i’r pwyslais mae’r ysgol yn ei osod ar addysgu diogelwch ar-lein a seiber-fwlio, ac yn dangos ymwybyddiaeth briodol o beryglon posibl y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau perthnasol yn yr ysgol, fel cynrychioli’r ysgol ar y cyngor ysgol. Mae ychydig ddisgyblion yn llysgenhadon i’r ysgol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni anghenion disgyblion yn eithriadol o dda. Mae cynlluniau gwaith wedi’u cynllunio’n dda ac amrywiaeth eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel yn sicrhau bod parhad a dilyniant cadarn mewn dysgu'r disgyblion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio’n gydweithredol ar draws yr ysgol gan ddefnyddio themâu fel teimladau a dŵr i ennyn diddordeb disgyblion a hoelio’u sylw ar ddysgu yn llwyddiannus iawn. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o’i statws fel ysgol arloesi ac ysgol greadigol arweiniol i ddatblygu prosiectau dychmygus mewn meysydd fel gwyddoniaeth a thechnoleg a chymhwysedd digidol.

Mae’r ysgol yn ehangu ei darpariaeth gwricwlaidd yn dda iawn i sicrhau bod profiadau dysgu yn adlewyrchu parodrwydd disgyblion i ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o weithgareddau wrth iddynt symud ymlaen drwy’r ysgol. Er enghraifft, mae’n cynnig dewis helaeth o gyfleoedd perthnasol sy’n gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 yng nghanolfan alwedigaethol a chaffi’r ysgol, a thrwy amrywiaeth o brosiectau menter. Mae’r profiadau hyn yn hynod effeithiol wrth gefnogi disgyblion i ddatblygu a defnyddio medrau newydd ym myd gwaith ac yn y gymuned ehangach.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr â’r coleg lleol. Er enghraifft, mae’n gweithio’n agos gyda’r coleg i sicrhau bod disgyblion yn cael at gyrsiau perthnasol ar lefel briodol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dilyn cyrsiau cyswllt wedi’u darparu gan y coleg. Mae’r profiadau hyn yn datblygu’u hunan-barch, eu medrau cymdeithasol a’u hannibyniaeth yn arbennig o dda. Mae’r cydweithredu helaeth

rhwng yr ysgol a'r coleg wedi cynorthwyo disgyblion i ennill dewis da o gymwysterau gwerthfawr a mynd ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant buddiol pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn hynod effeithiol. Mae wedi rhoi dulliau gwerthfawr ac arloesol ar waith i gefnogi a datblygu medrau cyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Caiff y dulliau hyn effaith ragorol ar allu disgyblion i fanteisio ar ddysgu ac maent yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol disgyblion yn eithriadol o dda.

Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddysgu a defnyddio medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau buddiol mewn gwersi. Er enghraifft, maent yn cyfrifo faint o newid dylent ei gael wrth siopa. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i gefnogi eu dysgu a'u medrau cyfathrebu yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u gwybodaeth am ddiwylliant Cymru. Yn benodol, mae'r ysgol wedi sefydlu trefniant arloesol ar gyfer darpariaeth ddwyieithog i ategu gofynion Cymraeg disgyblion y mae'n well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar y cyfan, mae ansawdd addysgu yn yr ysgol yn dda. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u galluoedd. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu ac arbenigwyr o dîm amlddisgyblaeth yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae'r dull amlddisgyblaeth hwn o fodloni anghenion disgyblion er mwyn cefnogi eu dysgu yn nodwedd ragorol ar waith yr ysgol.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion a'u diddordeb yn eu dysgu. Maent yn sicrhau bod amcanion dysgu yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn cynllunio gweithgareddau heriol sy'n symbylu disgyblion ac yn hoelio'u sylw ar ddysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i alluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso'u medrau'n llwyddiannus ar draws amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau holi addas i annog disgyblion i fyfyrio'n ofalus ar eu dysgu. Maent yn rhoi adborth anogol ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n helpu disgyblion i gynnal eu ffocws ac yn magu eu hyder. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd pwrpasol i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill fel eu bod yn gwybod pa mor dda maen nhw'n ei wneud a sut gallent wella'u gwaith. Mewn ychydig wersi, fodd bynnag, nid yw cynlluniau athrawon yn ddigon heriol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n ddigon diddorol nac yn cyfateb yn ddigon da i anghenion disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae prosesau asesu, monitro ac olrhain trylwyr yr ysgol yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae gan staff lefelau uchel o fanylion am bob agwedd ar gynnydd disgyblion ac maent yn deall eu hanghenion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn defnyddio data yn dda iawn i arfarnu cynnydd disgyblion, cynllunio'u camau dysgu nesaf ac ymyrryd gyda strategaethau priodol a chymorth ychwanegol lle bo'r angen. Mae

dadansoddi data'r ysgol gyfan yn effeithiol wedi arwain at sawl enghraifft o arfer well, fel cyflwyno chwarae strwythuredig adeg amser cinio. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac wedi arwain at ostyngiad yn nifer y digwyddiadau adeg amser cinio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gyda phartneriaid i ddatblygu ac ategu ei darpariaeth, yn enwedig pan nad yw disgyblion yn bodloni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer ac mae asesiadau'n dangos bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Er enghraifft, mae darpariaeth gofal seibiant ar y safle yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol pwysig. Mae cymorth therapiwtig arbenigol yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar ddatblygiad medrau ac ymddygiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth helaeth o raglenni hynod effeithiol ar gyfer datblygu cyfathrebu ac ymddygiad disgyblion. Mae gwaith yr ysgol yn y maes hwn yn eithriadol ac yn galluogi disgyblion i wella'u hymddygiad dros gyfnod, ymroi'n dda i ddysgu a gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae gwaith yr ysgol gyda rhieni yn gryfder. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau symbylol a digwyddiadau i gynnwys rhieni ac aelodau'r teulu mewn dysgu disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys bŵt-camp ffitrwydd, sesiynau karate a dosbarthiadau coginio. Mae teuluoedd yn rhoi pwys mawr ar y gweithgareddau hyn. Mae adroddiadau i rieni yn nodi cynnydd disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysgu yn glir. Mae rhieni'n ymwneud yn briodol ag adolygu cynnydd a chytuno ar y camau nesaf.

Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr i ddisgyblion gadw'n heini trwy gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn nodwedd sefydledig ar waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau awyr agored cyffrous, fel cyfeiriannu a beicio, mewn cydweithrediad â phartneriaid. Mae gweithgareddau allgyrsiol dyddiol yn boblogaidd ac yn cynnwys clwb cyfathrebu, yn ogystal â chlwb dringo a chlwb sgïo. Trwy reoli risgiau'n ofalus ac offer addasol lle bo'r angen, mae'r gweithgareddau hyn ar gael i bob disgybl. Mae trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn nodwedd gref ar waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth sydd wedi'i chynllunio'n dda a'r amgylchedd gofalgar, meithringar, yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd ac ystyried safbwyntiau disgyblion eraill. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i alluogi disgyblion i wneud dewisiadau personol mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu medrau newydd trwy fynychu cwrs coleg neu ddod yn fwy annibynnol trwy dreulio amser yn y cyfleuster preswyl a reolir gan yr ysgol.

Mae gweithgareddau cyffrous, wedi'u cefnogi'n dda gan bartneriaid fel yr Urdd a'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn galluogi disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg yn greadigol ac yn gynhyrchiol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau celf, y mae'r ysgol yn falch o arddangos eu deilliannau ar goridorau'r ysgol, a chyfleoedd gwerthfawr am gerddoriaeth a pherfformio.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau ac amrywiaeth eang o fentrau ac ymweliadau cymunedol cyffrous. Bob dydd, mae cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddod ynghyd i ddatblygu eu dealltwriaeth o beth sy'n dda ac yn ddrwg, a myfyrio ar eu teimladau a'u credoau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth strategol wych i'r ysgol. Mae wedi datblygu gweledigaeth strategol gydlynol ar gyfer addysg disgyblion, sy'n gosod anghenion pwysicaf disgyblion wrth wraidd pob agwedd ar waith yr ysgol. Yn greiddiol i hyn y mae dull arloesol o ddatblygu medrau cyfathrebu ac ymddygiad disgyblion o gam cynharaf eu haddysg. Mae hyn yn galluogi bron pob disgybl i fanteisio ar gwricwlwm ehangach dros gyfnod a gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu dysgu a'u lles, o'u mannau cychwyn unigol. Mae gweledigaeth yr ysgol yn gyrru diwylliant hynod effeithiol o welliant parhaus trwy hunanarfarnu trylwyr, cydweithredu rhagorol a dysgu proffesiynol hynod lwyddiannus.

Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm i ddadansoddi canfyddiadau hunanarfarnu i gynllunio gwelliannau pellach. Mae hyn wedi sicrhau cynnydd cyson wrth wella rhaglenni rheoli ymddygiad, dysgu proffesiynol ac addysg alwedigaethol. Mae staff ar bob lefel yn cefnogi gwella'r ysgol yn dda iawn. Er enghraifft, mae arweinwyr canol yn sicrhau bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae dyrannu dyletswyddau'n ystyrlon ar bob lefel o'r strwythur staffio yn helpu'r ysgol i weithredu'n effeithiol o ddydd i ddydd a bodloni ystod anghenion eang iawn ei disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda gydag amrywiaeth helaeth o bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys gwaith ers sawl blwyddyn gyda phrifysgol leol i ddatblygu dulliau arloesol o reoli ymddygiad. Mae'r rhaglen hon yn manteisio ar ganfyddiadau ymchwil perthnasol a gwaith dadansoddwyr ymddygiad hynod effeithiol. Maent yn nodi anghenion disgyblion yn gywir ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynhyrchu pecynnau cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion unigol a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i staff. Caiff y gwaith hwn effaith rymus ar safonau ymddygiad ac ar gynnydd disgyblion yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu'r gwaith hwn yn llwyddiannus gydag ysgolion yn rhyngwladol, er enghraifft trwy gynadleddau yn Unol Daleithiau America.

Mae partneriaethau gwerthfawr, er enghraifft gyda'r gwasanaeth therapi iaith a lleferydd, yn cefnogi datblygiad staff yn dda iawn. Mae hyn yn cryfhau gallu'r ysgol i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion, sy'n cael effaith hynod gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu disgyblion. Mae arweinwyr yn cydweithio'n dda gyda darparwyr addysg lleol eraill, er enghraifft gyda'r coleg addysg bellach lleol. Mae hyn yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus iawn i leoliadau eraill ar gyfer eu haddysg ar ôl ymadael â'r ysgol. Mae cyd-gynllunio'r gwaith hwn yn effeithiol yn gwneud yn siŵr bod darpariaeth yr ysgol yn bodloni anghenion a dyheadau disgyblion ar gyfer eu dyfodol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn dangos ymrwymiad cadarn i fyfyrio a dysgu proffesiynol. Mae staff yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i gymhwyso medrau newydd y maent wedi'u dysgu wrth weithio gyda disgyblion mewn gwersi. Er enghraifft, mae athrawon sydd wedi cwblhau'r rhaglen athro rhagorol yn addasu gwersi i roi'r lefel gywir o her i bob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn manteisio'n ddigon da ar gyfleoedd i rannu'r arfer hon.

Mae'r ysgol yn buddsoddi mewn datblygu staff i fodloni'i hanghenion presennol a'i hanghenion yn y dyfodol yn arbennig o dda. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cefnogi cynorthwywyr addysgu i gymhwyso'n athrawon ac wedi caniatáu diwrnodau astudio i staff gwblhau cyrsiau hyfforddi wedi'u hachredu gan brifysgol. Mae arweinwyr yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i gryfhau staffio'r ysgol, er enghraifft gan ddefnyddio mentrau fel y rhaglen athrawon graddedig.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau ariannol yn llwyddiannus iawn i gynorthwyo â gwella'r ysgol. Mae'r ysgol fodern, bwrpasol yn cynnig amgylchedd dysgu eithriadol sy'n cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn dda iawn. Mae'n gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i liniaru effaith tlodi ac anfantais gymdeithasol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi defnyddio'r cyllid hwn i ddatblygu dulliau defnyddiol o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac i wella cyfleoedd am gyswllt â theuluoedd. Mae hyn yn datblygu gwell ymwybyddiaeth o'r modd y gall pob oedolyn gefnogi disgyblion yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol ac yn y cartref.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gefnogi a herio'r ysgol. Er enghraifft, maent yn gweithio'n ddiwyd i amlygu ffyrdd o wella arbedion effeithlonrwydd ariannol i greu mwy o allu i gynorthwyo â gwella'r ysgol a bodloni anghenion disgyblion. Llywodraethwyr sy'n arwain bwrdd rheoli ar y cyd yr ysgol, sy'n goruchwylio agweddau ar gyfleuster preswyl yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i adolygu effaith y ddarpariaeth hon a'r gwasanaethau yn barhaus yn effeithiol iawn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2017